

Cynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig y Weinyddiaeth Amddiffyn

Cyflwyniad

Paratowyd y cynllun hwn yn unol ag adran 21(3) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 sy'n nodi bod yn rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (ByIG) ac anfon y cynllun at ByIG i'w gymeradwyo.

Cafodd y Cynllun gefnogaeth lawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Mehefin 1999 a bu i'r fersiwn ddiwygiedig hon dderbyn cymeradwyaeth y bwrdd ar 17 Mawrth 2009. Sefydlwyd ByIG gan y Ddeddf fel awdurdod y Llywodraeth sy'n arolygu rhoi'r cynllun ar waith.

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal ei busnes gyda'r cyhoedd yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn manylu ar sut bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhoi'r egwyddor honno ar waith. Mae'r Cynllun yn gymwys i'r un graddau i Bencadlys y Weinyddiaeth Amddiffyn, ei hasiantaethau a'i chronfeydd masnachu, a'r Lluoedd Arfog. Dylid nodi bod y Weinyddiaeth Amddiffyn, wrth lunio'r mesurau y manylir arnynt yn y Cynllun, wedi ystyried cyfyngiadau o ran y gyllideb ac adnoddau.

1.2 Ni newidir y Cynllun hwn oni bai bod y Weinyddiaeth Amddiffyn a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cytuno ar y newid.

1.3 Yn y cynllun hwn, ystyr y term **cyhoedd** yw unigolion, pobl gyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd fel cyfanwaith, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys mudiadau gwirfoddol ac elusennau. Mae ystyr y term 'cyhoedd' hefyd yn cynnwys cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pobl sy'n gweithio yn rhinwedd swydd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth na, lle bo'n briodol, staff contractwyr sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn. O'r herwydd, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol cyhoeddus eu natur, er eu bod yn bobl gyfreithiol, yn dod o fewn ystyr y gair *cyhoedd* pan maent yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

1.4 Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (<http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/>).

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

1.5 Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) yw Adran fwyaf y Wladwriaeth, ac mae'n cyflogi tua 68,300 o weithwyr sifil a thua 190,400 o staff Lluoedd Arfog ar hyd a lled y byd.

1.6 Diben y Weinyddiaeth Amddiffyn yw diffinio'r strategaeth a gwneud y gorau, o fewn yr adnoddau a ddyrennir, o'r gallu amddiffyn sy'n angenrheidiol:

- i atal unrhyw fygythiad i ryddid a dilysrwydd y Deyrnas Unedig a'r tiriogaethau sy'n ddibynnol arni, a'u hamddiffyn os bydd angen, gan gynnwys darparu cefnogaeth yn ôl yr angen i'r awdurdod sifil i atal terfysgaeth;
- i gyfrannu at hybu buddiannau diogelwch ehangach y DU, gan gynnwys gwarchod a gwella rhyddid ac arferion democrataidd, a hybu masnach rydd; a thrwy hynny hybu heddwch a gweithredu fel grym i sicrhau daioni, er mwyn i'r DU fod â chymaint o ddylanwad ac enw mor dda â phosibl yn rhyngwladol.

1.7 Mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn safleoedd niferus yng Nghymru, gyda nifer o unedau milwrol, adrannau canolog ac asiantaethau'n gweithio yng Nghymru neu'n cael eu cynrychioli yma. Fodd bynnag, cyfran fechan yn unig o'i gwaith sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

2. Ymwybyddiaeth Gyffredinol

Safiad

2.1. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ddogfen statudol. Yn bennaf, Uned Cysylltiadau Allanol y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n arolygu cydymffuriad ag ef, yn ogystal â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

2.2. Dylai darllenwyr ddeall y Cynllun Iaith Gymraeg yng nghyd-destun y pwyntiau a ganlyn.

- Yn ogystal â'r staff hynny sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn berthnasol i staff sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru ar hyn o bryd ond sydd a wnelo â meysydd gwaith sydd o ddiddordeb penodol i bobl Cymru (er enghraifft hedfan yn isel).
- Yn achos trafodion â'r cyhoedd yng Nghymru, ystyrir bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac felly eu bod yr un mor flaenllaw a phwysig ym mhob agwedd, heblaw am yr eithriadau a amlinellir yn y ddogfen hon.

Codi Ymwybyddiaeth

2.3 Codir ymwybyddiaeth trwy gynnwys gwybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg yn rheolaidd yng nghyhoeddiadau mewnol y Weinyddiaeth Amddiffyn a'i mewnwyd. Gwneir hyn bob chwe mis, neu mor aml ag sy'n ymarferol.

2.4 Pan fydd gweithwyr newydd yn cael eu cyflogi mewn ardaloedd perthnasol, bydd gwybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys yn eu pecynnau cychwyn. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad fesul pwynt bwled o brif agweddau'r Cynllun Iaith Gymraeg, a manylion cyswllt Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau dilyniant pan fydd trosiant ymhlith staff.

2.5 Caiff cynnwys Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn gyhoeddusrwydd o fewn yr Adran, a darperir arweiniad trwy gyfrwng Hysbysiadau Cyfarwyddiadau Amddiffyn a Chyfarwyddiadau Personél i staff sifil a staff y Lluoedd Arfog sy'n ymwneud â chynllunio a datblygu polisi.

Ariannu

2.6 Bydd meysydd cyllidebol unigol yn gyfrifol am ariannu costau cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg o'u hadnoddau presennol.

3. Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaeth

Polisiâu a mentrau

3.1 Bydd ein polisiâu, mentrau a gwasanaethau'n gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg a byddant, lle bo'n bosibl, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd, os mai dyna yw eu dymuniad.

3.2 Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn sicrhau y bydd yr angen i ddarparu ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth gynnar wrth gyflwyno polisiâu a gwasanaethau newydd a fydd yn effeithio ar y cyhoedd yng Nghymru. Yn y modd hwn, fe fydd polisi newydd yn symud yr Adran yn agosach at roi cydraddoldeb iaith ar waith yn ei thrafodion â'r cyhoedd ar bob cyfle.

3.3 Nod y Weinyddiaeth Amddiffyn yw y dylai polisiâu a mentrau newydd fod yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn. Fe fydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn arolygu polisiâu a mentrau newydd sy'n berthnasol i'r Cynllun ac, wrth iddynt gael eu datblygu, bydd yn cymhwyso'r mesurau a gynhwysir yn y Cynllun hwn iddynt. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn â chynigion a allai effeithio ar y Cynllun.

3.4 Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn sicrhau, lle bo'n bosibl, y bydd deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth newydd yn cefnogi defnyddio'r iaith Gymraeg yng Nghymru.

Cyflwyno gwasanaeth

3.5 Bydd modd y Weinyddiaeth Amddiffyn o ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru yn unol â'r egwyddorion y manylir arnynt yn y Cynllun hwn, yn adrannau 4-6.

3.6 Ein harfer arferol fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael yn Gymraeg i'r cyhoedd yng Nghymru. Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

3.7 Bydd dull pob adran o weithredu'n dibynnu'n helaeth ar ei maint, graddau a natur ei chyswllt â'r cyhoedd a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Fodd bynnag, gellir defnyddio adnoddau'n hyblyg rhwng adrannau er mwyn bodloni ymrwymiadau'r Cynllun.

Ein Hasiantaethau

3.8 Byddwn yn sicrhau bod Asiantaethau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithredu'n unol â'n Cynllun. Lle bo'r Asiantaeth yn dymuno paratoi ei Chynllun ei hun ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gall wneud hynny.

Safonau gwasanaeth

3.9 Bydd yr Adran yn sicrhau y bydd gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yn Gymraeg o'r un safon uchel â'r rheiny a ddarperir yn Saesneg, yn unol â'r egwyddorion yn y Cynllun hwn. Bydd trefniadau i arolygu ac adolygu safonau

darparu gwasanaethau'n sicrhau cynnal safon y ddarpariaeth gwasanaeth, boed yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn gyson yn y Weinyddiaeth Amddiffyn drwyddi draw.

4. Delio â'r Cyhoedd Sy'n Siarad Cymraeg

Gohebiaeth ysgrifenedig

4.1 Mae croeso i'r cyhoedd ohebu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd llythyron a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ateb ysgrifenedig yn Gymraeg (os oes gofyn am ateb).

4.2 Bydd y targed Gwasanaeth yn Gyntaf (Siarter y Dinesydd gynt) o 20 o ddiwrnodau gweithio ar gyfer ateb yn berthnasol i lythyron a dderbynnir yn Gymraeg. Yn yr un modd â chyfathrebu yn Saesneg, bydd ateb dros dro yn cael ei anfon yn yr iaith briodol os yw'n annhebygol y bydd y targed hwn yn cael ei gyflawni.

4.3 Bydd unrhyw unigolyn neu sefydliad a fydd yn mynegi y byddai'n well ganddo gynnal ei fusnes yn Gymraeg yn cael gohebiaeth yn y dyfodol yn Gymraeg. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cychwyn gohebiaeth yn Gymraeg ag unigolyn neu sefydliad y gwyddys ei bod yn well ganddo ddefnyddio'r iaith honno.

4.4 Lle bydd llythyr a gyfeirir at nifer o unigolion neu sefydliadau yng Nghymru yn cynnwys rhai derbynwyr nad yw'r Saesneg, o bosibl, yn ddewis iaith iddynt, bydd y llythyr yn ddwyieithog, neu os bydd angen caiff ei anfon mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae hyn yn cynnwys cylchlythyron a llythyron safonol.

4.5 Os bydd yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd.

4.6 Bydd amgaeadau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael, a bydd amgaeadau a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

4.7 Bydd y darpariaethau uchod ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg yn gymwys i'r un graddau i ohebiaeth electronig. Bydd pob gohebiaeth a dderbynnir ar e-bost yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg. Bydd pob copi caled o ohebiaeth Gymraeg y bydd yr Adran yn ei chyhoeddi'n cael ei lofnodi.

4.8 Pan dderbynnir gohebiaeth ysgrifenedig gymhleth sy'n gyfreithiol neu'n dechnegol ei natur yn Gymraeg, boed gohebiaeth o'r fath trwy lythyr neu ar ffurf unrhyw ohebiaeth electronig, yna mae'n bosibl y bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn, wrth ymateb i ohebiaeth o'r fath yn Gymraeg, yn darparu'r fersiwn Saesneg o'r ymateb y gwnaed y cyfieithiad Cymraeg ohono.

Cyfathrebu dros y ffôn

4.9 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi sefydlu llinell gymorth Gymraeg fel gwasanaeth i'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith. Bydd pob galwad ar y llinell Gymorth Gymraeg yn cael ei chynnal yn Gymraeg. Yna, lle bo'n bosibl, bydd yr alwad yn cael ei throsglwyddo i'r siaradwr Cymraeg yn uned y Weinyddiaeth Amddiffyn a fydd fwyaf galluog i helpu â'r ymholiad. Os na fydd unrhyw siaradwr Cymraeg yn y Weinyddiaeth Amddiffyn â'r arbenigedd angenrheidiol i ateb yr ymholiad yn uniongyrchol, bydd y galwr yn cael yr opsiwn i a) parhau â'r alwad yn Saesneg,

b) ysgrifennu yn Gymraeg (darperir ateb yn Gymraeg i hyn), neu c) gadael neges â siaradwr Cymraeg a bydd ateb ysgrifenedig yn Gymraeg yn cael ei anfon. Rhif ffôn llinell gymorth Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn yw 01554 821 413. Codir y gyfradd safonol ar gyfer pob galwad.

4.10 Trafodir unrhyw newid i'r llinell gymorth â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a rhoddir cyhoedduswydd ynglŷn â hyn i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd yr hysbysiad cyhoeddus trwy gyfrwng gwefan gorfforaethol y Weinyddiaeth Amddiffyn ar y rhyngwyd.

4.11 Bydd siaradwyr Cymraeg eu hiaith a fydd yn ffonio sefydliad neu adran yng Nghymru'n uniongyrchol yn cael eu trosglwyddo i siaradwr Cymraeg yn yr uned honno. Os na fydd unrhyw siaradwr Cymraeg yn yr adran neu'r sefydliad â'r arbenigedd i ateb yr ymholiad yn uniongyrchol, bydd y galwr yn cael yr opsiwn i barhau â'r alwad yn Saesneg, neu ysgrifennu at yr adran neu'r sefydliad yn Gymraeg (y darperir ateb ysgrifenedig yn Gymraeg iddo).

Cyfarfodydd cyhoeddus

4.12 Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru'n ddwyieithog, a byddant yn gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni ymlaen llaw pa iaith y byddent yn hoffi ei defnyddio yn ystod y cyfarfod. Byddwn yn ystyried y galw am yr iaith Gymraeg wrth benderfynu ar lefel y cyfleusterau cyfieithu i'w darparu. Byddwn yn rhoi gwybod i'r rheiny a fydd yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael, ac yn annog cyfraniadau yn Gymraeg.

4.13 Wrth ddethol staff i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus, ein harfer safonol fydd sicrhau y bydd siaradwyr Cymraeg â chymwysterau addas yn eu mynychu, lle bo hyn yn bosibl.

4.14 Ein harfer safonol fydd darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg, a chyhoeddi adroddiadau neu bapurau a gynhyrchir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg.

Cyflwyniadau

4.15 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau gwaith allanol yng Nghymru, yn enwedig cyflwyniadau mewn ysgolion. Gellir darparu rhai o gyflwyniadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Gymraeg. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynyddu cyfran y cyflwyniadau hyn y gellir eu darparu yn Gymraeg dros amser. Fe fyddwn mewn sefyllfa i gyflenwi fersiynau Cymraeg o'n prif gyflwyniadau i ysgolion o fewn oes y cynllun hwn. Mae hyn yn cyfeirio at y cyflwyniadau a draddodir gan y tîm 'Defence Dynamics' a Thîm Cyflwyniadau Ysgolion y Fyddin.

Delio â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill

4.16 Pan fydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnal cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb ag aelodau unigol o'r cyhoedd yng Nghymru, bydd yn darganfod pa iaith y byddai'n well ganddo ei defnyddio cyn gynted â phosibl, a bydd yr Adran yn sicrhau y bydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ac sydd â chymwysterau addas yn delio â'r rheiny y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg, lle bo hynny'n bosibl. Os na fydd

siaradwr Cymraeg â chymwysterau addas ar gael, byddwn yn cynnig dewis i barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r mater trwy ohebu yn Gymraeg. Ni fyddai'n ymarferol i staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb â'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.17 Bydd yr uchod hefyd yn gymwys i gyfarfodydd a gynhelir gan ddefnyddio cyfarpar fideogynadleda a chyfarpar tebyg, lle bo hyn yn ymarferol, cyn belled ag y bydd pawb a fydd yn cymryd rhan yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, a hwythau'n fodlon cynnal y cyfarfod yn yr iaith honno.

4.18 Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys cyfweiliadau archwilio diogelwch gyda chanolwyr, ond nid gyda'r sawl sy'n cael ei archwilio o safbwynt diogelwch. Cynhwysir hefyd gyfweiliadau eraill gyda'r cyhoedd. Yn achos cyfweiliadau recriwtio yng Nghymru, lle bo'r recriwtiwr a'r ymgeisydd yn gallu cynnal y cyfweiliad cyfan, neu ran ohono, trwy gyfrwng y Gymraeg, a hwythau'n fodlon gwneud hynny, gallant wneud felly.

4.19 Lle caiff dulliau newydd o gyfathrebu â'r cyhoedd eu datblygu, er enghraifft, gan ddefnyddio cysylltiadau teleweledol, caiff gofynion y cynllun hwn eu hystyried.

4.20 Pan ymgwymerir ag arolygon cyhoeddus yng Nghymru, yr arfer arferol fydd sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Lle bo'n ymarferol, gofynnir i ymatebwyr a fyddent yn hoffi ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.

4.21 Pan fydd yr Adran yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg i'r cyhoedd yng Nghymru, bydd yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg. Wrth gynnal yr asesiad hwn, byddwn yn gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni ymlaen llaw pa iaith y byddent yn hoffi ei defnyddio yn ystod y digwyddiad, a byddwn yn ystyried dewis iaith y rheiny fydd yn bresennol a ph'un a oes unrhyw hyfforddwy'r sy'n siarad Cymraeg ar gael.

4.22 Yr arfer arferol fydd sicrhau bod cyhoeddiadau a wneir drwy gyfrwng systemau sain i'r cyhoedd yng Nghymru yn cael eu gwneud yn Gymraeg a Saesneg. Efallai na fydd yn bosibl cyfathrebu mewn dwy iaith mewn argyfwng neu mewn sefyllfaoedd brys risg uchel pan fo amser yn dra phwysig.

5. Wyneb Cyhoeddus yr Adran

Delwedd gorfforaethol

5.1 Bydd unedau a sefydliadau yng Nghymru'n cyfleu delwedd gorfforaethol ddwyieithog i'r cyhoedd. Bydd yr enw, y cyfeiriad a gwybodaeth safonol arall yn ddwyieithog ar lythyron a negeseuon ffacs a ysgrifennir gan yr unedau hyn at y cyhoedd yng Nghymru, ar gardiau busnes, bathodynau adnabyddiaeth ac unrhyw nwyddau a deunyddiau perthnasol eraill. Dylid nodi bod "Ministry of Defence", "Royal Navy", "British Army", a'r "Royal Air Force" yn enwau ac yn frandiau (byd enwog), felly ni fydd bathodyn y Weinyddiaeth Amddiffyn, logo'r Llynges Frenhinol, bathodyn "Crossed Swords" y Fyddin Brydeinig neu gylchig y Llu Awyr Brenhinol, na'r enwau "Royal Navy", "British Army" a "Royal Air Force" yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn defnyddio'r gair 'logo' i olygu 'hunaniaeth weledol'. Mae i gyfansoddiad hunaniaethau gweledol y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Llynges Frenhinol, y Fyddin

a'r Llu Awyr Brenhinol ddwy elfen: bathodyn, a'r disgrifydd testunol. O'r herwydd, mae'r disgrifydd testunol hwn sy'n nod masnach yn rhan o'r logo, ac felly ni fydd yn cael ei gyfieithu.

Arwyddion a hysbysiadau

5.2 Bydd arwyddion mewn manau cyhoeddus yng Nghymru y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gyfrifol amdanynt naill ai'n ddwyieithog neu'n cynnwys fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae hyn yn cynnwys arwyddion allanol wrth y fnyedfa i safleoedd ac ar eu ffiniau, ac arwyddion eraill mewn manau lle caiff y cyhoedd fnyediad rheolaidd. Dylid nodi bod "Ministry of Defence", "Royal Navy", "British Army", a'r "Royal Air Force" yn enwau ac yn frandiau (byd enwog), felly ni fydd bathodyn y Weinyddiaeth Amddiffyn, logo'r Llynges Frenhinol, bathodyn "Crossed Swords" y Fyddin Brydeinig neu gylchig y Llu Awyr Brenhinol, na'r enwau "Royal Navy", "British Army" a "Royal Air Force" yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Fodd bynnag, bydd arwyddion gorsafodd y Llu Awyr Brenhinol yng Nghymru'n parhau i fod yn Gymraeg a Saesneg.

5.3 Lle darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Bydd pob testun cymharol yn Gymraeg a Saesneg ar arwyddion a hysbysiadau'n gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5.4 Bydd pob arwydd a hysbysiad newydd yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn cyn gynted â'i bod yn ymarferol bosibl o fewn cyfyngiadau o ran y gyllideb ac adnoddau.

Deunydd sy'n cael ei gyhoeddi (gan gynnwys ffurflenni)

5.5 Lle cyfeirir deunydd sy'n cael ei gyhoeddi at y cyhoedd yng Nghymru, neu lle bo'n debygol y bydd o ddiddordeb penodol i'r cyhoedd yng Nghymru, arfer arferol y Weinyddiaeth Amddiffyn fydd cyhoeddi deunydd o'r fath yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un dogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefan.

5.6 Os bydd yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, pan fyddai un dogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran amlygrwydd ac ansawdd, a'n harfer arferol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd a'u bod yr un mor hawdd i'w cael. Bydd pob fersiwn yn nodi'n eglur bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

5.7 Rhoddir blaenoriaeth i ddogfennau sy'n targedu'r rheiny sydd â diddordeb mewn ymuno â'r Lluoedd Arfog, dogfennau sy'n targedu teuluoedd darpar recriwtiaid a dogfennau sy'n ymwneud â Gwasanaethau y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Pan fydd a wnelo dogfennau ag ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol sy'n ymwneud â gweithgaredd y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru, bydd fersiwn Gymraeg neu ddwyieithog bob amser yn cael ei chynhyrchu.

5.8 Pan fydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cofnodi gwybodaeth ar fersiynau Cymraeg o ffurflenni a anfonir at y cyhoedd, bydd yn gwneud hynny yn Gymraeg. Pan fydd yr Adran yn cofnodi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a anfonir at y cyhoedd, bydd yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai y gwyddys y byddai'n well gan y derbynyddion dderbyn y wybodaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.

5.9 Os na fydd dogfen ar gael yn rhad ac am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn uwch na phris cyhoeddiad uniaith – a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath.

5.10 Bydd yr uchod hefyd yn gymwys i ddeunydd a fydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom neu fel arall.

Rhyddid gwybodaeth

5.11 Pan fydd angen, byddwn yn ceisio cyngor oddi wrth y Bwrdd ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

5.12 Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn ei chyfieithu i ddewis iaith yr ymgeisydd, cyn belled nad oes mwy na 100 o eiriau i'w cyfieithu.

Gwefan y Weinyddiaeth Amddiffyn

5.13 Bydd gwefannau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnwys testun yn Gymraeg a Saesneg. Bydd yr Adran yn ymorol am gynyddu cynnwys Cymraeg ei gwefannau dros amser ac, wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu gwefannau sy'n bodoli, bydd yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac unrhyw ganllawiau eraill a gyhoeddir gan y Bwrdd sy'n ymwneud â datblygu gwefannau. Pryd bynnag y gosodir cyhoeddiadau Saesneg ar wefannau'r Weinyddiaeth Amddiffyn, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu gosod yno ar yr un pryd, os byddant ar gael. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn paratoi rhaglen, i gytuno arni â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn manylu ar sut mae'n bwriadu cynyddu cynnwys Cymraeg ei gwefan, dros amser.

Hysbysiadau i'r wasg

5.14 Cyhoeddir datganiadau i'r wasg sy'n ymwneud â gweithgarwch y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg lle bo terfynau amser yn caniatáu. Bydd yr Adran yn cyhoeddi unrhyw ddatganiadau i'r wasg sydd ar gael yn Gymraeg ar ei gwefan yn yr un modd â'r fersiynau Saesneg.

5.15 Lle bo'n bosibl, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i siarad mewn cyfweiliadau â'r wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

Cyhoedduswydd a hysbysebu

5.16 Wrth gynnal ymgyrchoedd hysbysebu a chyhoedduswydd yng Nghymru, ein harfer arferol fydd trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Bydd hyn yn cynnwys ymgyrchoedd yn y cyfryngau i recriwtio ar gyfer y Lluedd Arfog; posteri, byrddau a dulliau arddangos cyhoeddus eraill; hysbysebu ar y teledu; arddangosfeydd, ymweliadau ag ysgolion, ffeiriau gyrfaoedd a sioeau recriwtio yng Nghymru; arolygon; a chyhoeddiadau cyhoedduswydd a recriwtio. Cynhyrchir yr holl gyhoedduswydd, gwybodaeth gyhoeddus, deunydd arddangos a hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru (er mwyn targedu'r cyhoedd) yn gwbl ddwyieithog, neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, fe fydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Lle bo terfynau amser yn caniatáu, fe fydd y ddwy

fersiwn ar gael ar yr un pryd, a byddant yr un mor hawdd i'w cael. Byddwn yn ymorol am gynyddu'r deunydd cyhoeddus sydd ar gael yn Gymraeg fel rhan o Gynllun Gweithredu Cynllun Iaith y Weinyddiaeth Amddiffyn.

5.17 Anogir amgueddfeydd yng Nghymru y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu cymorth ariannol ar eu cyfer hefyd i ddarparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

5.18 Pan fydd staff yn gofalu am stondinau arddangos ac arddangosfeydd yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg â chymwysterau addas wrth law, lle bo angen a lle bo'n bosibl.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

5.19 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a osodir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n llwyr yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

5.20 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd – boed wedi'u cynhyrchu fel un fersiwn ddwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

5.21 Yn y cyfryngau Saesneg, caiff swyddi lle mae'n hanfodol gallu siarad Cymraeg eu hysbysebu yn Gymraeg, gyda disgrifiad cryno yn Saesneg.

5.22 Bydd hysbysiadau recriwtio a osodir mewn cylchgronau (a chyhoeddiadau eraill) Saesneg sy'n cael eu dosbarthu ledled y DU yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle bo'n hanfodol gallu siarad Cymraeg; yn yr achos hwn, gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg gydag esboniad cryno yn Saesneg. Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a osodir rhywle arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

Hysbysebion print

5.23 Bydd unrhyw hysbysebion a osodir mewn papurau newydd (neu ddeunydd tebyg) Saesneg sy'n cael eu dosbarthu'n bennaf neu'n llwyr yng Nghymru yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddwy fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Hysbysebion darlledu

5.24 Bydd ymgyrchoedd teledu a fydd yn ymddangos ar S4C yn ystod oriau darlledu Cymraeg yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir ar Radio Cymru neu yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg.

5.25 Wrth gynllunio ymgyrchoedd hysbysebu yn y dyfodol ar gyfer y teledu, y sinema a'r radio, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ystyried gofynion y cynllun hwn, a bydd yn ymdrechu i ddatblygu ymgyrchoedd y bydd modd eu cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg yn rhwydd. Bydd fersiynau Cymraeg yn defnyddio naill ai actorion sy'n

siarad Cymraeg, neu leisiau sylwebwyr Cymraeg; osgoir defnyddio trosleisio neu isdeitlau.

5.26 Bydd cyhoeddusrwydd a hysbysebion yng Nghymru'n ei gwneud yn glir, lle bo'n bosibl, fod croeso i'r cyhoedd ohebu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Gymraeg.

5.27 Mae cyfarwyddiadau ar gyfer recriwtwyr sifil yn cynnwys gwybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg, a'r angen i'w ddilyn wrth hysbysebu yng Nghymru am staff sifil.

6. Gweithredu ac Arolygu'r Cynllun

Trefniadau gweinyddol

6.1 Bydd Is-Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gyfrifol am sicrhau bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn bodloni darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg fel y manylir arnynt yn y Cynllun hwn. Rhoddir y Cynllun ar waith yn gyson yn y Lluoedd, yr Adran a'i hasiantaethau drwyddynt draw. Bydd rheolwyr llinell yn gyfrifol am roi'r Cynllun ar waith a'i weithredu o fewn eu cylchoedd rheolaeth.

6.2 Mae pob maes yn gyfrifol am weinyddu ei drefniadau cyfieithu ei hun. Yr Uned Cysylltiadau Allanol fydd y man cyswllt i gael cyngor yn hyn o beth, a bydd yn gwneud popeth posibl o fewn cyfyngiadau ymarferol i hybu effeithiolrwydd y Cynllun Iaith Gymraeg.

Recriwtio a Staffio Sifil

6.3 Mae angen i'r elfennau hynny o'r Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru fod â digon o staff ar gael sy'n siarad Cymraeg ac sydd â'r sgiliau priodol i alluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth llawn yn Gymraeg. Yn ymarferol, mae hyn yn berthnasol i gymharol ychydig o rannau o'r Adran.

6.4 Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn nodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle bo'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunadwy neu'n hanfodol. Mae'n bosibl y diffinnir y gofyniad hwn fel cydran o weithle neu dîm, neu efallai y cysylltir ef â swydd benodol. Pan ystyrir ei bod yn ddymunadwy neu'n hanfodol gallu siarad Cymraeg yn rhugl ar gyfer swydd sifil, bydd hyn yn cael ei ddatgan mewn hysbysebion ac ym manylion cymwyseddau'r swydd. Lle na fydd yn bosibl dod o hyd i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n addas ar gyfer swydd lle bo'r Gymraeg yn ddymunadwy, darperir cyfleoedd i'r sawl a benodir ddysgu Cymraeg.

6.5 Mae'n bosibl y penodir ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd yr ystyrir bod y Gymraeg yn *hanfodol* ar ei chyfer, ond lle gellir caniatáu amser i ddysgu'r iaith. Yn yr achosion hyn, fe fydd dysgu'r iaith i'r lefel cymhwysedd ofynnol, o fewn cyfnod rhesymol y cytunir arno, yn amod cyflogaeth.

6.6 Lle na fydd yn bosibl dod o hyd i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n addas ar gyfer swydd lle bo'r Gymraeg yn *hanfodol* (neu tra bo ymgeisydd sydd wedi'i benodi nad yw'n gallu siarad Cymraeg wrthi'n dysgu'r iaith) byddwn yn gwneud trefniadau dros dro er mwyn gallu darparu'r gwasanaeth Cymraeg (trwy ddefnyddio, er enghraifft, staff sy'n siarad Cymraeg o rywle arall yn ein sefydliad i gyflenwi rhannau o'r gwasanaeth).

6.7 Yn achos sefydliadau y tu allan i Gymru, byddwn yn ystyried a ddylai siarad Cymraeg yn rhugl fod yn sgil dymunadwy neu hanfodol ar gyfer unrhyw swydd sy'n golygu cyswllt helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru – a bydd hyn yn cael ei ddatgan mewn hysbysebion ac ym manylion cymwyseddau swyddi.

Hyfforddiant iaith

6.8 Mae cyrsiau hyfforddiant yn y Gymraeg ar gael trwy'r Adran. Caiff staff wybod am y cyrsiau hyn yn yr arweiniad sy'n cyd-fynd â'r Cynllun, trwy anogaeth eu rheolwyr llinell lle bo'n berthnasol, a thrwy daflenni y sefydliadau hyfforddi dan sylw. Mae'r cyrsiau ar gael i holl bersonél y Weinyddiaeth Amddiffyn, boed yn staff y Lluoedd Arfog neu'n staff sifil

6.9 Wrth ystyried a ddylid rhyddhau arian o'r gyllideb hyfforddiant ar gyfer staff presennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu loywi eu hiaith, bydd rheolwyr llinell yn pwysu a mesur buddiannau eu staff yn dysgu'r sgil hwn o safbwynt anghenion cyffredinol yr Adran, o safbwynt angen yr Adran i gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg, ac o safbwynt y cyhoedd Cymraeg eu hiaith. Lle penodir rhywun nad yw ei allu yn y Gymraeg yn ddigon da i ddiwallu gofynion y swydd, trefnir ei hyfforddiant o fewn cyfnod cytunedig rhesymol, gyda chefnogaeth yr Adran.

6.10 Darperir hyfforddiant hefyd ar gyfer staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg fel cyfle datblygu nad yw'n gysylltiedig â gofynion eu swydd bresennol. Fodd bynnag, y rheolwr llinell fydd yn penderfynu a fydd modd dilyn hyfforddiant o'r fath, a bydd yn dibynnu ar p'un a oes lleoedd ar gael ai peidio.

Hyfforddiant galwedigaethol

6.11 Byddwn yn datblygu gallu ein staff sy'n siarad Cymraeg i weithredu yn Gymraeg trwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, lle bo anghenion busnes yn dangos galw am hyn.

6.12 Yn achos ein swyddfeydd y tu allan i Gymru, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, lle bo'n ymarferol, i ddatblygu gallu staff sy'n cael cyswllt helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru fel rhan o'u dyletswyddau.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

6.13 Ystyrir yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, ac i weithredu yn unol â'r Cynllun hwn, wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

6.14 Wrth i ni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* y Bwrdd.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn gan drydydd parti

6.15 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau y bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn eu gwneud â thrydydd bartion yn gyson â rhannau perthnasol o'r cynllun hwn, pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu gosod i gontractwr allanol, rhoi trwyddedau a rhoi caniatadau eraill.

6.16 Lle bo'n berthnasol, manylir ar ofynion sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru mewn dogfennau tendro a

contractau dilynol. Yna bydd gofyn i drydydd bartïon adrodd ar eu perfformiad, o'i gymharu â'r cynllun hwn, at ddibenion arolygu.

6.17 Mae cyfarwyddiadau wedi'u rhoi i'r holl staff i godi ymwybyddiaeth o'r angen, wrth lunio manylebau contractau, i sicrhau bod gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn yn bodloni'r ymrwymïadau yn y Cynllun hwn.

Gweithio mewn partneriaeth

6.18 Pan mai'r Weinyddiaeth Amddiffyn yw'r arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymuno â phartneriaeth y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein cyfraniad at y bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn, a bydd yr Adran yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio. Pan fydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn bartner mewn consortïwm, bydd yn annog y consortïwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fydd yn gweithredu yn enw'r consortïwm, bydd yn gweithredu'n unol â'r cynllun hwn.

Trefniadau mewnol

6.19 Mae'r mesurau yn y cynllun hwn yn dwyn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Bydd rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith. Bydd yr Adran yn penodi uwch aelod o staff i gydlynu'r gwaith sy'n ofynnol i gyflawni, arolygu ac adolygu'r cynllun hwn.

6.20 Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn paratoi, ac yn diweddarau'n barhaus, cynllun gweithredu manwl i gytuno arno â'r Bwrdd, gan fanylu ar sut bydd yr Adran yn sicrhau ei bod yn gweithredu'n unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun hwn i rym, neu mor fuan â phosibl wedi hynny. Bydd y cynllun gweithredu'n cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd fesul targed. Mae'r cynllun gweithredu yn ychwanegiad i'r targedau a restrwyd yn atodiad y cynllun hwn.

6.21 Bydd ein staff, a'r cyhoedd yng Nghymru, yn derbyn cyhoeddusrwydd am y cynllun. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn lle amlwg. Caiff Hysbysiad Cyfarwyddiadau Amddiffyn ei gynhyrchu a fydd yn cynnwys cyfarwyddyd ar gyfer ein staff i sicrhau eu bod yn gwybod sut i roi'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn ar waith. Caiff cyfarwyddyd sydd eisoes yn bodoli ei ddiwygio i adlewyrchu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.

6.22 Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn sicrhau mai cyfieithwyr a lladmeryddion cymwys yn unig a ddefnyddir i helpu i gyflawni'r cynllun hwn.

6.23 Ymgwymerir ag unrhyw ffurf ar gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'r cynllun hwn yn delio'n benodol ag ef, mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u corffori yn y cynllun hwn.

Arolygu'r Cynllun

6.24 Bydd gweithredu'r Cynllun a'i roi ar waith yn cael ei arolygu a'i adolygu'n ganolog gan yr Uned Cysylltiadau Allanol. Bydd hyn yn weithgaredd strwythuredig a pharhaus, i gynnwys:

- arolygu perfformiad y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ôl y targedau parhaus y manylir arnynt yn y Cynllun, fel yr amserau ymateb i ohebiaeth a'r trefniadau ar gyfer ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd;
- arolygu cydymffuriad yr Adran â'r ymrwymadau y manylir arnynt yn y Cynllun, o ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ei pholisïau a'i gweithdrefnau newydd, a'i modd o roi mesurau staffio a hyfforddi ar waith;
- ymchwilio i gwynion a gweithredu awgrymiadau a wneir i'r Adran.
- Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynhyrchu adroddiadau arolygu o bryd i'w gilydd, ac yn eu hanfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg, pan fydd yn gofyn iddi wneud hynny, gan amlinellu cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn.

Adolygu a diwygio'r cynllun

6.25 Bydd y cynllun hwn yn cael ei adolygu cyn pen pedair blynedd o'r dyddiad y daw i rym, neu ar unrhyw adeg arall lle bydd newid i swyddogaethau'r Weinyddiaeth Amddiffyn, neu i'r amgylchiadau y mae'n ymgymryd â'r swyddogaethau hynny ynddynt, yn golygu ei bod yn briodol gwneud hynny. Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cwynion ac awgrymiadau

6.26 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd unrhyw gwynion yn cael eu trin o ddifrif ac yn gyfrinachol, er mwyn gallu gwella perfformiad yr Adran yn barhaus.

6.27 Bydd cwynion am ddarpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru'n cael eu trin a'u harolygu yn unol â gweithdrefnau cwynion safonol yr Adran. Dylid cyflwyno cwynion cychwynol i'r uned neu'r sefydliad perthnasol o fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Dylid anfon unrhyw gwynion pellach neu fwy cyffredinol am y Cynllun hwn i'r cyfeiriad a ganlyn:

External Relations Unit
Ministry of Defence
Level 6, Zone 1
Main Building
Whitehall
London SW1A 2HB

6.28 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn y Cynllun hwn. Caiff yr awgrymiadau i gyd eu cofnodi a'u hystyried yn gadarnhaol. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn glynu at bolisïau'r Cynllun hwn wrth weinyddu ateb ysgrifenedig a fydd yn egluro pa gamau sydd wedi'u cymryd neu sydd i'w cymryd, neu eglurhad pam na fyddai unrhyw gamau'n briodol dan yr amgylchiadau, neu'n rhesymol ymarferol. Dylid cyfeirio awgrymiadau sy'n ymwneud â'r Cynllun at yr Uned Cysylltiadau Allanol yn y cyfeiriad uchod.

6.29. Gall y cyhoedd ddod o hyd i'r cynllun ar-lein yn y cyfeiriadau a ganlyn:
Cymraeg – <http://www.mod.uk/NR/rdonlyres/0DEF2EDA-0CE3-4460-A4C9-FA3AFE3327A5/0/YWeinyddiaethAmddiffynCynllunIaithGymraeg.pdf> Saesneg – http://www.mod.uk/NR/rdonlyres/70D87C3A-C26E-4BA6-920A-8E80CBE61F17/0/MOD_Welsh_Language_Scheme.pdf Gall y cyhoedd nad yw'r

rhyngwyd ar gael iddynt gael copi caled o'r Cynllun oddi wrth yr Uned Cysylltiadau Allanol yn y cyfeiriad a roddir uchod.

ATODIAD A.

Prif dargedau darparu'r Cynllun

	Targed	Dyddiad cwblhau
1	<p>Ymwybyddiaeth staff (2.3 – 2.5)</p> <p>2.3. Codir ymwybyddiaeth trwy gynnwys gwybodaeth am y Cynllun laith Gymraeg yn rheolaidd yng nghyhoeddiadau mewnol y Weinyddiaeth Amddiffyn a'i mewnwyd.</p> <p>2.4. Pan fydd gweithwyr newydd yn cael eu cyflogi mewn ardaloedd perthnasol, bydd gwybodaeth am y Cynllun laith Gymraeg yn cael ei chynnwys yn eu pecynnau cychwyn. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad fesul pwynt bwled o brif agweddau'r Cynllun laith Gymraeg, a manylion cyswllt Bwrdd yr laith Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau dilyniant pan fydd trosiant ymhlith staff.</p> <p>2.5 Caiff cynnwys Cynllun laith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn gyhoedduswyd o fewn yr Adran, a darperir arweiniad trwy gyfrwng Hysbysiaidau Cyfarwyddiaid Amddiffyn a Chyfarwyddiaid Personél i staff sifil a staff y Lluoedd Arfog sy'n ymwneud â chynllunio a datblygu polisi.</p>	<p>Bydd y rownd gyntaf yn hyn o beth yn cael ei gweithredu cyn pen dau fis ar ôl i Fwrdd yr laith Gymraeg gymeradwyo'r cynllun yn ffurfiol, a phob chwe mis neu mor aml ag sy'n ymarferol wedi hynny.</p>
2	<p>Ymwybyddiaeth cyhoeddus (3.6) Ein harfer arferol fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael yn Gymraeg i'r cyhoedd yng Nghymru. Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.</p>	<p>Rhoddir hysbysiad dwyieithog ynglŷn â'r llinell gymorth Gymraeg ar ein gwefan gorfforaethol (www.mod.uk) cyn pen dau fis ar ôl cymeradwyo'r cynllun. Bydd yr hysbysiad hefyd yn rhoi cyhoedduswyd i'r ffaith bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p>
3	<p>4.15 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau gwaith allanol yng Nghymru, yn enwedig cyflwyniadau mewn ysgolion. Gellir darparu rhai o gyflwyniadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Gymraeg. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynyddu cyfran y cyflwyniadau hyn y gellir eu darparu yn Gymraeg dros amser. Fe fyddwn mewn sefyllfa i gyflenwi fersiynau Cymraeg o'n prif gyflwyniadau i ysgolion o fewn oes y cynllun hwn (pedair blynedd). Mae hyn yn cyfeirio at y cyflwyniadau a draddodir gan y tîm 'Defence Dynamics' a Thîm Cyflwyniadau Ysgolion y Fyddin.</p>	<p>Fe fydd ein prif gyflwyniad i ysgolion ar gael o fewn oes y cynllun hwn, h.y. cyn pen pedair blynedd ar ôl cymeradwyo'r cynllun hwn yn ffurfiol.</p>
4	<p>Bydd gwefannau'r Weinyddiaeth Amddiffyn (5.13) yn cynnwys testun yn Gymraeg a Saesneg. Bydd yr Adran yn ymorol am gynyddu cynnwys Cymraeg ei</p>	<p>Byddwn yn cytuno ar raglen i gynyddu nifer y tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau pan fydd gennym syriad</p>

	<p>gweffannau dros amser ac, wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu gwefannau sy'n bodoli, bydd yn ystyried Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac unrhyw ganllawiau eraill a gyhoeddir gan y Bwrdd sy'n ymwneud â datblygu gwefannau. Pryd bynnag y gosodir cyhoeddiadau Saesneg ar wefannau'r Weinyddiaeth Amddiffyn, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu gosod yno ar yr un pryd, os byddant ar gael. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn paratoi rhaglen, i gytuno arni â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn manylu ar sut mae'n bwriadu cynyddu cynnwys Cymraeg ei gwefan, dros amser.</p>	<p>mwy eglur o'r amserlenni ar gyfer caffael System Rheoli Cynnwys (CMS) newydd, ailddylunio gwefan gorfforaethol y Weinyddiaeth Amddiffyn (www.mod.uk) a mudo cynnwys.</p> <p>Bydd y CMS yn cael ei phrynu, a bydd ein gwefan gorfforaethol yn cael ei hailddylunio yn ystod Blwyddyn Ariannol 2009/2010. Rydym yn disgwyl cwblhau gwaith Rhesymoli'r We ym mis Mawrth 2011.</p> <p>Byddwn yn cytuno ar raglen cyn pen tri mis ar ôl cwblhau gwaith Rhesymoli'r We, ac yn cwblhau'r gwaith y cytunwyd arno erbyn Rhagfyr 2011.</p>
--	--	---